

Adroddiad Blynyddol Bwrdd Monitro Annibynnol CEM Brynbuga a Phrescoed

**Ar gyfer y flwyddyn adrodd
1 Ebrill 2020 i 31 Mawrth 2021**

Cyhoeddwyd Tachwedd 2021

Cynnwys

Adrannau rhagarweiniol 1 - 3

Tudalen

1. Rôl statudol y Bwrdd Monitro Annibynnol

3

2. Disgrifiad o'r sefydliad

4

3. Crynodeb gweithredol

5

Adrannau tystiolaeth 4 – 7

4. Diogelwch

9

5. Triniaeth heb greulondeb

12

6. Iechyd a lles

17

7. Cynnydd ac ailsefydlu

20

Gwaith y Bwrdd Monitro Annibynnol

22

Ceisiadau i'r Bwrdd Monitro Annibynnol

23

Geirfa

25

Adrannau rhagarweiniol 1 - 3

1. Rôl statudol y Bwrdd Monitro Annibynnol

Mae Deddf Carchardai 1952 yn mynnu bod pob carchar yn cael ei fonitro gan fwrdd annibynnol, wedi'i benodi gan yr Ysgrifennydd Gwladol, o blith aelodau o'r gymuned lle mae'r carchar wedi'i leoli.

O dan y Fframwaith Monitro Cenedlaethol y cytunwyd arno gyda gweinidogion, mae'n ofynnol i'r Bwrdd wneud y canlynol:

- bodloni ei hun bod y rhai yn nalfa'r carchar yn cael eu trin yn ddyngharol ac yn gyfiawn, a bod y rhaglenni sy'n eu paratoi ar gyfer cael eu rhyddhau yn amrywiol ac yn ddigonol
- rhoi gwybod yn brydlon i'r Ysgrifennydd Gwladol, neu i unrhyw swyddog y mae awdurdod wedi'i ddirprwyo iddo fel y mae'n ei ystyried yn briodol, am unrhyw bryder sydd ganddo
- cyflwyno adroddiad blynyddol i'r Ysgrifennydd Gwladol ar ba mor dda y mae'r carchar wedi bodloni'r safonau a'r gofynion a osodwyd arno, a pha effaith mae'r rhain yn eu cael ar y rhai yn ei ddalfa.

I alluogi'r Bwrdd i gyflawni'r dyletswyddau hyn yn effeithiol, mae gan ei aelodau hawl mynediad at bob carcharor a phob rhan o'r carchar, ac at gofnodion y carchar.

Mae'r Protocol Dewisol i'r Confensiwn yn erbyn Artaith a math arall o Driniaeth neu Gosb Greulon, Annynol neu Ddiraddiol (OPCAT) yn gytuniad hawliau dynol rhyngwladol sydd wedi'i lunio i gryfhau gwarchodaeth i bobl sydd wedi'u hamddifadu o'u rhyddid. Mae'r protocol yn cydnabod bod pobl o'r fath yn arbennig o agored i niwed ac yn ceisio eu hatal rhag cael eu trin yn wael drwy sefydlu system o ymweliadau neu arolygon ar gyfer pob dalfa. Mae OPCAT yn mynnu bod Gwladwriaethau'n dynodi Mecanwaith Atal Cenedlaethol i gynnal ymweliadau â mannau sy'n cadw pobl yn gaeth, i fonitro'r driniaeth a'r amodau ar gyfer ceiswyr lloches ac i wneud argymhellion i atal pobl rhag cael eu trin yn wael. Mae'r Bwrdd yn rhan o Fecanweithiau Atal Cenedlaethol y Deyrnas Unedig.

Mae geirfa fer wedi'i chynnwys ar ddiwedd yr adroddiad hwn yn adran 8.

2. Disgrifiad o'r sefydliad

2.1 Mae Carchar Brynbuga a Phrescoed yn cynnwys dau garchar yn nhref Brynbuga (de-ddwyrain Cymru). Cânt eu rheoli gan un Llywodraethwr a gefnogir gan uwch dîm rheoli (UDRh).

- Mae Carchar CEM Brynbuga yn garchar categori C.
- Mae Carchar Prescoed yn garchar agored categori D.
- Mae CEM Fferm Cilwrgi yn galluogi carcharorion o Brescoed i weithio a chael hyfforddiant mewn amaethyddiaeth, defnyddio peiriannau fferm a gweithio mewn wrysau.
- Yn yr un modd â gweddill ystâd y carchardai, roedd Carchar Brynbuga a Phrescoed yn gweithredu yng nghyfnod clo trefn 4 yn ystod y rhan fwyaf o'r cyfnod adrodd hwn oherwydd pandemig Covid-19.

Mae cymysgedd cymhleth o garcharorion yn cael eu cefnogi gan y canlynol:

- Cyflwyno Rheoli Troseddwy yn y Ddalfa (OMiC) sy'n cynnwys swyddogion carchar yn cyflawni gwaith allweddol (CEM Brynbuga) a Rheolwyr Troseddwy Carchardai yn rheoli achosion (CEM Brynbuga a Prescoed)
- Tîm ailsefydlu a gweithwyr achos cysylltiedig.
- Y darparwr iechyd yw Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.
- Yr adran seicoleg.
- Tîm camdefnyddio sylweddau a ddarperir gan Dyfodol.
- Y gaplaniaeth.
- Adran gofal iechyd sy'n darparu cyfleuster gofal dydd ym Mrynbuga a Phrescoed.
- Llyfrgelloedd a chymffeydd yng ngharchar Brynbuga a Phrescoed.

2.2 Agorwyd Carchar Brynbuga am y tro cyntaf yn 1844. Wedi'i leoli yn y dref, mae'r tair prif adain yn deillio o fan rheoli canolog. Mae'r rhain bellach yn lletya carcharorion agored i niwed, y rhan fwyaf ohonynt yn ddynion a gafwyd yn euog o droseddau rhywiol (MCOSO), gydag oddeutu 20% ohonynt dros 60 oed. Yn ystod cyfnod adrodd 2020/21, cafodd y capasiti gweithredol ei leihau i gyfartaledd o 220 o'i gymharu â 276 yn y flwyddyn flaenorol. Y llety arferol ardystiedig (CAN) ar gyfer y rhan fwyaf o'r cyfnod adrodd oedd 278.

Mewn amgylchiadau arferol, gall dynion sy'n gymwys i gael statws 'uwch' dan y cynllun cymhellion a breintiau haeddiannol (IEP) wneud cais i fyw yn adain Comber, sy'n uned ar wahân ar ffurf dortur.

Mae'r drefn wedi'i chynllunio i baratoi carcharorion ar gyfer eu rhyddhau'n ddiogel a lleihau'r risg o aildroseddu:

- Roedd y rhaglen trin troseddwy rhyw ar gael i'r holl garcharorion nes iddi gael ei therfynu (yn genedlaethol) ym mis Mawrth 2017. Mae hyn wedi cael ei ddisodli gan raglenni Horizon a Kaizen.
- Ceir adran addysg ffyniannus, ynghyd â gweithdai gwaith coed, gosod brics a phlastro.

- Yr amcanion yw cadw carcharorion yn ddiogel ac yn saff, a darparu sefydliad trefnus, lle mae carcharorion yn cael eu trin heb greulondeb a chyda chwarteisi a pharch.

2.3 Mae CEM Prescoed mewn cefn gwlad agored, tua thair milltir y tu allan i dref Brynbuga, ar safle sefydliad troseddwyd ifanc a agorodd yn 1939. Ers 1993 mae wedi gweithredu fel sefydliad ailsefydlu agored i ddynion categori D.

Ar gyfer y rhan fwyaf o 2020/21, mae lefelau OPCAP wedi bod yn is. Roedd hyn er mwyn galluogi cynnydd mewn deiliadaeth sengl fel ymateb i bandemig Covid-19. Cyn hyn, 260 oedd yr OPCAP; 210 oedd y cyfartaledd yn ystod cyfnod adrodd 2020/21.

Mae'n cynnwys 11 o flociau llety ar wahân sy'n darparu llety i oddeutu 20 o breswylwyr yr un. Yn ystod yr RP mae 40 o bodiau sengl wedi cael eu hychwanegu ac maen nhw wedi'u plymio ac yn gweithio'n dda.

Mae'r gyfundrefn wedi'i chynllunio i ailsefydlu ac addysgu drwy gynlluniau ailsefydlu a dedfrydu strwythuredig, ac i leihau'r risg y bydd carcharorion yn aildroseddu pan fyddant yn dychwelyd i'w cymunedau. Mae cyfleoedd ar gael ar gyfer addysg, hyfforddiant a lleoliadau gwaith, gydag adnoddau'n cael eu dyrannu ar gyfer ailsefydlu carcharorion. Mae'r drefn ym Mhrescoed yn cynnwys amrywiaeth o ddiwydiannau a gweithgareddau. Mae'r Bwrdd yn falch iawn bod y carchar, er gwaethaf cyfyngiadau Covid-19, wedi llwyddo i gynnal nifer ac amrywiaeth y lleoliadau gwaith â thâl. (Gweler adran 7.2.)

3. Crynodeb gweithredol

3.1 Cefndir yr adroddiad

3.1.1 Mae pandemig Covid-19 wedi cael effaith sylweddol ar allu'r Bwrdd i ymchwilio i gynnwys yr adroddiad blynyddol hwn, sy'n cyflwyno ein canfyddiadau ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2020 a 31 Mawrth 2021. Mae'r Bwrdd wedi cynnwys cymaint o dir ag y gall yn yr amgylchiadau, ond mae llai o fanylion a thystiolaeth ategol nag arfer – fel y nodir, mae'r cyfnod hwn wedi'i gynnwys yn llwyr yng nghanau amrywiol y cyfyngiadau symud.

3.1.2 Mae Gweinidogion yn ymwybodol o'r cyfyngiadau a ddisgrifiwyd ond mae'n bwysig nodi, o ran canfyddiadau'r adroddiad hwn:

- Parhaodd y Bwrdd i gasglu a dadansoddi data drwy gydol y cyfnod.
- Er bod monitro wyneb yn wyneb rheolaidd yn gyfyngedig, roeddem yn dal i allu cynnal rhai ymweliadau rota yn ystod gwahanol donnau a chamau'r cyfyngiadau symud.
- Ategwyd yr ymweliadau gan:
 - cyswllt wythnosol rheolaidd dros y ffôn gyda staff
 - rhywfaint o gyswllt (ond yn anaml) dros y ffôn â chynrychiolwyr carcharorion

- presenoldeb mewn cyfarfodydd rheoli'r carchar wythnosol
- mwy o ddata ac adborth gan yr uwch dîm rheoli (UDRh)
- Dymuna'r Bwrdd gofnodi'r lefel uchel o gydweithrediad a gafodd gan y carcharorion, y staff a'r Uwch Dîm Rheoli wrth gasglu gwybodaeth ar gyfer yr adroddiad hwn.

O hyn ymlaen, mae'r Bwrdd:

- Wedi triongli ein cyswllt rheolaidd blaenorol yn y carchar gyda'r monitro mwy cyfyngedig yr ydym wedi gallu ei gyflawni yn ystod y flwyddyn.
- Casglu gwybodaeth o'r data rydym ni ac eraill wedi gallu ei gasglu.
- Ystyried bod ei gasgliadau'n ddilys gan ein bod wedi ceisio cael darlun realistig o dystiolaeth a phrofiad. (Gweler adran 8.1 am ddisgrifiad o fonitro yn ystod y cyfyngiadau symud.)

3.1.3 Ar ben hynny, mae gwybodaeth reolaidd yn cael ei chasglu am ymateb y carchar i'r pandemig, ac mae'r wybodaeth honno'n cael ei chasglu'n genedlaethol.

3.1.4 Drwy gydol yr adroddiad hwn, mae'r Bwrdd wedi defnyddio ymadroddion fel 'yn gyffredinol' ac 'yn bennaf', ac rydym yn dymuno nodi beth mae hyn yn ei olygu. Bwriedir iddo ddangos 'barn go iawn' wybodus am y carchar – gall pethau fynd o chwith o bryd i'w gilydd, a byddai'n naif awgrymu y gallai unrhyw garchar gael popeth yn iawn drwy'r amser. Mae'r Bwrdd yn derbyn bod hyn yn wir am bob sefydliad, sefydliad ac unigolyn.

3.1.5 Fel y gwelir o'r adroddiad hwn yn ei gyfanrwydd, mae'r Bwrdd yn ystyried Carchar Brynbuga a Phrescoed yn garchardai effeithiol sy'n cael eu rhedeg yn dda, yn dilyn y cysyniad o adolygiad tryloyw a gwelliant parhaus.

Mae'r farn hon yn deillio o'n harsylwadau uniongyrchol, barn carcharorion fel y caiff ei mynegi i'r aelodau a'n triongli data a gyflenwir gan y carchar. Caiff ei gefnogi gan adroddiadau cyrff eraill sy'n monitro neu'n arolygu'r carchar. Mae'r rhain yn cynnwys Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi (APEM) ac adolygiadau chwarterol Cyfarwyddwr Grŵp Carchardai Cymru. (Gweler adran 8.1.)

Ar ben hynny, yn 2020 cafodd y carchar wobwr Amgylcheddau Galluogi Canolfan y Coleg ar gyfer Gwella Ansawdd. Caiff hyn ei ddyfarnu gan Goleg Brenhinol y Seiciatryddion. Gweler yr eirfa yn adran 8 am esboniad o beth y mae hyn yn ei olygu.

3.2 Prif farnau

Pa mor ddiogel yw'r carchar?

3.2.1 Mae'r Bwrdd o'r farn bod Brynbuga a Prescoed yn garchardai diogel, gyda lefelau isel o drais, bwlio a hunan-niweidio. Mae'r rhan fwyaf o ddynion yn dweud eu bod yn teimlo'n ddiogel.

Pa mor deg a dyngarol gaiff carcharorion eu trin?

3.2.3 Oherwydd Covid19, roedd cysylltiad unigryw rhwng diogelwch, tegwch ac iechyd mewn carchardai dros y flwyddyn ddiwethaf. Barn y Bwrdd yw y dylid canmol y carchar am y ffordd y mae wedi rheoli'r pandemig ac mae'n ystyried hyn yn arwydd o'i ethos rheoli ehangach. Er gwaethaf y cyfyngiadau symud, mae'r Llywodraethwr wedi llwyddo i flaenoriaethu'r egwyddor o reoli risg yn hytrach na dim ond osgoi risg. Mae hyn yn golygu, er bod dynion wedi talu pris uchel am eu diogelwch, nad ydynt yn ystyried bod y cyfyngiadau hyn yn peryglu tegwch na'u dynoliaeth. Mae enghreifftiau ymarferol o hyn yn cynnwys:

- Y carchar oedd un o'r cyntaf i gael symud i lefel 2 a chynyddu'r amser allan o'r gell. (Nid o fewn y cyfnod adrodd, ond fel dangosydd defnyddiol, roedd y carchar yn gwneud cais i symud i gam 1 ar 2.9.21)
- Yn CEM Prescoed, mae 80 o garcharorion wedi dewis cymryd rhan yn "dydd lau siopa bwyd" – mae hwn ar gael i weithwyr sy'n cael eu talu'n llawn ar ROTL. Fel cam tuag at normalrwydd, mae'n eu galluogi i storio detholiad o frechdanau a phrydau meicrodon ar gyfer y nos os byddant yn colli'r gwasanaeth pryd poeth gyda'r nos.

Pa mor dda mae anghenion iechyd a lles carcharorion yn cael eu diwallu?

3.2.4 Mae'r Bwrdd o'r farn bod y carchar wedi ymdopi'n dda â'r cyfyngiadau a osodwyd gan y pandemig a'i fod wedi darparu gofal iechyd tebyg i'r hyn sydd ar gael yn y gymuned.

Pa mor dda mae carcharorion yn symud ymlaen tuag at ailsefydlu llwyddiannus?

3.2.5 Gan ystyried y cyfyngiadau sydd ar waith yn ystod y cyfnod adrodd, mae'r Bwrdd o'r farn bod y carchar wedi llwyddo i symud dynion tuag at adsefydlu. Yn wir, mae'n ymddangos bod gwaith y carchar wedi gwella llawer o'i effeithiau (gweler adran 7.5) ac mae'n werth nodi bod gweithwyr o Garchar Prescoed wedi'u galluogi i barhau â'u lleoliadau oddi ar y safle drwy gydol y cyfnod.

Yn ystod y pandemig, mae'r carchar wedi parhau i weithio gyda'r Ymddiriedolaeth Cyngor a Gofal Carchardai (PACT: gweler adran 8.2) i sicrhau bod cymorth ar gael i deuluoedd a dynion yn ystod cyfyngiadau Covid19.

3.3 Prif feysydd datblygu

I'R GWEINIDOG a Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru

3.3.1 Llwyddodd cyfnod clo Cam 4 (carcharorion wedi'u cyfyngu yn eu celloedd am 23 awr y dydd) gyda'i nod o warchod diogelwch carcharorion yn ystod pandemig Covid19 ond mae'r canlyniadau i'r bobl hyn sy'n aml yn agored i niwed wedi bod yn sylweddol. Mae'r Bwrdd yn gofyn i'r Gweinidog gydnabod hyn a sicrhau blaenoriaeth

uwch (drwy'r JCVI) i alluogi swyddogion a dynion i gael eu cynnwys mewn rhestrau blaenoriaeth brechu yn y dyfodol.

Mae cyflwr presennol datblygu brechlynnau yn y DU yn awgrymu na fyddai grwpiau eraill dan anfantais oherwydd y polisi hwn. Nid yw'n debygol y bydd rhwystrau yn y dyfodol yn ymwneud â dylunio, profi, gweithgynhyrchu, na logisteg danfon mewn swmp, ond yn y cam olaf – rhoi'r brechiad mewn breichiau unigol. Mae gweithwyr proffesiynol ym maes gofal iechyd mewn carchardai a swyddogion hyfforddedig eisoes ar waith i gyflawni'r dasg hon, heb amharu ar raglenni cymunedol.

I'R GWEINIDOG dros Addysg a'r Gymraeg

3.3.2. Mae addysg yn elfen allweddol o ran gwella'r gwaith o ailsefydlu carcharorion. Ar ôl ystyried dyfarniadau cyflog staff (sydd wedi cael eu cyflwyno dros y blynyddoedd diwethaf) mae'r Bwrdd yn bryderus y bu gostyngiad effeithiol yng ngwerth y cyllid y mae'r adran addysg yn ei gael ac y bydd hyn yn cael effaith negyddol ar ganlyniadau carcharorion.

I'R GWASANAETH CARCHARDAI

3.3.3 Fel y nodwyd yn ein hadroddiad yn 2020, mae hyd at hanner cant y cant o'r dogfennau OASys a dderbyniwyd yng Ngharchar EM Brynbuga yn amrywio o ran ansawdd, gyda'r adran "dechrau yn y ddalfa" naill ai'n aros yn wag neu mae ansawdd y cofnodi yn is na'r disgwyl. Gweler 7.3.3

3.3.4 Byddai'r Bwrdd yn awgrymu y dylid edrych ar ffyrdd o gadw swyddogion profiadol ac effeithiol yn y Gwasanaeth Carchardai a Phrawf. Mae'r Bwrdd yn cydnabod y lefel uchel o sgiliau sydd eu hangen i alluogi swyddog i hwyluso diwylliant diogel ac adsefydlu.

3.3.5 O ran hyrwyddo diogelwch mewn carchardai, mae'r Bwrdd yn cefnogi pryderon y Fonesig Anne Owers (llythyr at Gyfarwyddwr Cyffredinol y Carchardai, Tachwedd 2020) ynghylch y penderfyniad na ddylai clymu (a elwir hefyd yn gwneud cwlwm) carcharorion fod yn ddigwyddiad hunan-niweidio sy'n cael ei adrodd yn genedlaethol mwyach.

I'R LLYWODRAETHWR

3.3.6 Gan gyfeirio at ein sylwadau yn y crynodeb gweithredol yn **3.1.5, 3.2.1, 3.2.2, a 3.2.3** nid oes gennym lawer i'w ychwanegu yma heblaw gofyn i'r tîm ehangu eu hymdrechion i wella mynediad dros y ffôn i'r dynion ym Mrynbuga.

3.4 Cynnydd ers yr adroddiad diwethaf

3.4.1 Gan fod Carchar EM Brynbuga a Phrescoed wedi gweithredu o dan gyfundrefnau diogelu Covid nodweddiadol drwy gydol cyfnod yr adroddiad hwn, mae'n debygol bod cymharu â blynyddoedd cynharach yn anghynhyrchiol; fodd

bynag, mae'r Bwrdd wedi nodi'r lefel uchel o gydweithredu cynhyrchiol rhwng staff a dynion sydd wedi nodweddu'r cyfyngiadau symud hyn. Mae cynnydd arall yn cynnwys:

- Mae Carchar EM Brynbuga wedi ennill y cymhwyster Amgylcheddau Galluogi. (Gweler 5.4.)
- Cynhaliodd rheolwyr dalfa preswyl ym Mhrescoed sesiynau diweddarau yn rheolaidd a sesiynau Holi ac Ateb i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ddynion am yr hyn a oedd yn digwydd yn ystod cyfyngiadau symud Covid-19 a pham.
- Mae'r Uwch Dîm Rheoli wedi sicrhau buddsoddiad i wella gwedd y ddau garchar. Mae hyn wedi bod yn amlwg yn y gwaith o adnewyddu rhai o'r toiledau a'r cawodydd yng Ngharchar Brynbuga a datgomisiynu ac adnewyddu'r uned Lester anfodhaol yng Ngharchar Prescoed yn y dyfodol.
- Mae'r 40 uned llety Bunkabin ychwanegol yng Ngharchar Prescoed wedi gweithio'n dda ac wedi caniatáu i'r carchar gynnig mwy o lety un ystafell yn ystod y pandemig. Defnyddiwyd ugain o'r rhain ar gyfer gweithwyr allanol cam 2 a daeth yr 20 arall yn uned ynysu amddiffynnol (PIU). **Byddai'n dda petai'r carchar yn cael cadw'r unedau hyn yn barhaol.** Gweler adran 5.1.
- Roedd Carchar EM Brynbuga yn arloesol o ran gwneud y gorau o'r amser posibl ar gyfer ymarfer corff i'r dynion. Er enghraifft, rhannwyd y cae chwaraeon yn ardaloedd i ganiatáu grwpiau cerdded, cylchedau grŵp a sesiynau pwysau ac, yn dibynnu ar y tywydd, cynhaliwyd pum sesiwn y dydd.
- Er mwyn hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth ym Mhrescoed, cynhaliwyd digwyddiadau "Let's Talk" ar hil ac anabledd. Cynhaliwyd digwyddiadau i ddathlu Mis Hanes Pobl Dduon a Mis Hanes Menywod ar gyfer staff a charcharorion.
- Mae lefel y cydweithrediad a'r ymddiriedaeth rhwng dynion a swyddogion sydd eu hangen i gynnal cyfnod hir o gyfyngiadau symud yn sylweddol. Mae'r ffaith bod hyn wedi'i gyflawni mewn ysbryd cadarnhaol yn werth ei nodi.

3.4.2 Cynyddodd capasiti gweithredol CEM Prescoed ar gyfer dynion a gafwyd yn euog o droseddau rhyw (MCOSO) o 20 i 25.

Adrannau tystiolaeth 4 – 7

4. Diogelwch

4.1 Derbyn a chynefino

Yn ystod y cyfnod adrodd hwn, newidiodd y prosesau derbyn oherwydd y pandemig. Cafodd prosesau trosglwyddo rhwng carchardai eu cymeradwyo gan y gorchymyn


canolog ac roedd dynion yn cael eu dal yn ôl am gyfnod o 14 diwrnod ar ôl cyrraedd; cynhaliwyd archwiliadau lles drwy gydol eu noson gyntaf.

4.2 Hunanladdiad a hunan-niwed, marwolaethau yn y ddalfa

4.2.1 Nid oedd unrhyw farwolaethau yn y ddalfa, dim gweithredoedd hunan-niweidio a dim ond un ACCT a agorwyd yng Ngharchar Prescoed yn ystod y cyfnod adrodd hwn. Yn wir, gostyngodd nifer y digwyddiadau yn ystod y cyfnod hwn.

4.2.2 Yng Ngharchar Brynbuga, digwyddodd un farwolaeth a achoswyd gan yr unigolyn ei hun ar 21 Medi 2020. Nid yw adroddiad yr Ombwdsmon Carchardai a Phrofiannaeth a cholli bywyd ar 17 Ebrill 2020 wedi cael eu cyhoeddi ar yr adeg y mae'r adroddiad hwn wedi cael ei ysgrifennu.

4.2.3 Roedd y Bwrdd wedi disgwyl cynnydd sylweddol yn nifer yr ACCTs a hunan-niweidio yng Ngharchar EM Brynbuga yn ystod cyfnod clo Covid-19, yn wir – gweler graff cymharydd Brynbuga 27 mis isod – mae'r niferoedd wedi gostwng. Yn ystod y cyfnod adrodd hwn, mae cyfanswm o 16 achos o hunan-niweidio wedi cael eu cofnodi, ac mae'r nifer yn amrywio rhwng un a phedwar y mis, a dim un ym mis Awst 2020. Mae hyn yn cymharu â 25 ar gyfer 2019/20.



Yn ystod y cyfnod adrodd, o'r 42 swyddog yng Ngharchar Brynbuga, nid oedd pedwar wedi cael unrhyw fath o hyfforddiant ACCT. Nid oedd hyfforddiant o'r fath wedi digwydd ers dechrau pandemig Covid-19 ym mis Mawrth 2020 tan ddiwedd y cyfnod adrodd, ond mae'r Bwrdd wedi cael gwybod bod cynlluniau o'r fath ar waith.

4.2.4 Cefnogir gwrandawyr yn y ddau sefydliad gan y Samariaid a rheolwyr achosion dalfa mwy diogel.

Yn ystod Covid-19 mae gwrandawyr yng Ngharchar EM Brynbuga wedi bod yn recordio 'Stop and Chats' i helpu carcharorion gyda phroblemau logistaidd amrywiol. Mae aelodau'r Bwrdd yn ceisio trefnu cyfarfodydd anffurfiol rheolaidd gyda Gwrandawyr i fesur materion parhaus o fewn y sefydliadau.

4.3 Trais a lleihau trais, hunanynysu

4.3.1 Carchar EM Brynbuga: mae'r ymosodiadau'n parhau'n isel, gyda thri ar staff a deg ar garcharorion wedi'u cofnodi yn ystod y cyfnod adrodd. Mae lefelau bwlio yn dal yn isel ac mae'r rhan fwyaf o garcharorion yn dweud eu bod yn teimlo'n ddiogel.

4.3.2 Carchar Prescoed: mae ymosodiadau ar staff a charcharorion wedi aros ar sero yn ystod y cyfnod adrodd.

4.3.3 O bryd i'w gilydd, mae dogfennau her, cefnogaeth a chynllun ymyrraeth (CSIP) yn cael eu hagor yng Ngharchar Prescoed lle nad oes unrhyw oddefiant ar fwlio.

4.4 Carcharorion â gwendidau penodol

Mae rhagor o drafodaethau rhwng CEM Prescoed a'r prif garchar sy'n bwydo o ran achosion risg uwch yn sicrhau bod y broses drosglwyddo'n briodol, gan leihau'r posibilrwydd o fethiant yn y sefydliad agored.

4.5 Defnyddio grym

Mae'r ffigur hwn yn isel iawn yng Ngharchar EM Brynbuga. Cafwyd cyfanswm o 10 digwyddiad. Roedd dau wedi'u cynllunio gyda gefynnau bar anhyblyg yn cael eu defnyddio ac roedd wyth heb eu cynllunio ac yn cynnwys gafael arweiniol.

Roedd defnyddio grym yr un mor isel ym Mhrescoed ac fe'i cofnodwyd (un achlysur) fel defnydd o ataliaeth fecanyddol cyn i garcharor ddychwelyd i amodau caeedig.

4.6 Camddefnyddio sylweddau

Carchar EM Brynbuga: yn ystod y rhan fwyaf o'r cyfnod adrodd, nid oedd trefniadau cyfyngedig Covid-19 yn caniatáu i brofion cyffuriau gorfodol gael eu cynnal. Rhwng mis Awst a mis Hydref, cynhaliwyd 21 o brofion MDT ar hap a thri phrawf o amheuaeth. Profodd pob un yn negatiff. Mae'r carchar yn cysylltu hyn â'r achosion isel o fwlio sy'n cael eu hadrodd a chytunir bod cyffuriau'n aml yn achosi trais a bwlio mewn carchardai.

Carchar EM Prescoed: fel uchod, nid oedd systemau cyfyngedig Covid-19 yn caniatáu i brofion Amlddisgyblaethol gael eu cynnal. Rhwng mis Awst a mis Hydref, cynhaliwyd 36 o brofion ar hap ac 17 o brofion amheuaeth. O'r rheini, roedd un o'r profion ar hap a dau o'r profion amheuaeth yn bositif. Roedd polisi dim goddefgarwch Prescoed ar gamddefnyddio sylweddau yn golygu bod nifer o ddynion yn cael eu dychwelyd i amodau caeedig ar sail gwybodaeth a gasglwyd a phrofion amheuaeth. Fel y nodwyd y llynedd, mae'r carchar yn cyfeirio at gysylltiad achosol

rhwng y polisi hwn a'r lefel isel o drais a bwlio yn y carchar. Gweler adrannau 4.3.1 a 4.3.2.

5. Triniaeth deg a dyngarol

Y carchar oedd un o'r cyntaf i gael symud i lefel 2 a chynyddu'r amser allan o'r gell.

5.1 Llety, dillad, bwyd

5.1.1 Dylid pwysleisio bod y pandemig wedi lleihau'n sylweddol nifer yr ymweliadau wyneb yn wyneb â'r ddau safle carchar gan aelodau'r Bwrdd dros y cyfnod adrodd.

5.1.2 Cafodd Carchar Brynbuga ei adeiladu yn y 19eg ganrif ac mae'n wynebu'r heriau anochel sy'n gysylltiedig â hynny. Mae ymdrechion cryf wedi cael eu gwneud i liniaru'r rhain, ond mae angen cymeradwyo'r rhestr ar gyfer gwaith mawr. Mae'n baradocs monitro – er bod y rhan fwyaf o garcharorion yn byw mewn amodau cyfyng, gan rannu cell sydd wedi'i chynllunio ar gyfer un, mae'r canlyniadau'n parhau yn dda, ac fel mater o drefn mae dynion yn rhoi adborth cadarnhaol i aelodau'r Bwrdd. Yn gorfforol, mae'r carchar yn lân, ac mae'r staff yn cynnal archwiliadau gwedduster rheolaidd. Ar ben hynny, mae'n ymddangos bod y cyfathrebu rhwng staff a'r dynion yn dda a cheir cyfleoedd rheolaidd i gynrychiolwyr gwrdd â rheolwyr i godi problemau neu awgrymiadau.

5.1.3 Mae carchar Prescoed wedi'i adeiladu'n fwy modern ac fe'i hagorwyd yn wreiddiol cyn y rhyfel diwethaf.

5.1.4 Ym Mhrescoed, mae'r Bwrdd yn croesawu'r dymchwel sydd wedi'i gynllunio ar gyfer Uned Lester, y mae ei chyflwr gwael a'i anaddasrwydd wedi'i nodi mewn adroddiadau blaenorol. Nid yw'r union drefniadau newydd yn glir ar hyn o bryd.

5.1.5 Sefydlwyd pedwar deg 'pod' llety hunangynhwysol unigol ym Mhrescoed. Bu hyn yn gymorth mawr yn amgylchiadau eithriadol Covid-19, a'r gobaith yw y bydd y rhain yn cael eu cadw yn y tymor hwy.

5.1.6 Mae'r capasiti gweithredol wedi cael ei addasu i lawr yn y ddau garchar. Mae hyn wedi arwain at ostyngiad sylweddol mewn rhannu celloedd ac wedi helpu i hwyluso'r broses o warchod, ffurfio carfannau, ynysu a threfniadau cydymffurfio Covid-19 eraill.

5.1.7 Mae'r Bwrdd wedi nodi bod glanweithdra wedi cael ei gynnal ar safon uchel, yn anad dim drwy ymdrechion cynorthwywyr diflino, sydd wedi gwneud gwaith rhagorol a hanfodol drwy gydol y pandemig.

5.1.8 Nid yw'r Bwrdd yn ymwybodol o unrhyw anawsterau gyda'r systemau gwresogi a dŵr poeth sydd wedi effeithio ar garcharorion. Bydd rhaglen uwchraddio cellog yn cael ei chynnal drwy gydol cyfnod adrodd 2021/22.

5.1.9 Mae dangosyddion perfformiad allweddol o fewn y contract cynnal a chadw wedi cael eu hatal, er bod y Bwrdd wedi cael gwybod bod safonau wedi cael eu cynnal. Mae adolygiad llawn o lety yn y ddau garchar wedi'i gynllunio ond mae wedi cael ei ohirio oherwydd y pandemig.

5.1.10 Nid yw'r Bwrdd wedi cael gwybod am unrhyw bryderon parhaus ynghylch dillad a golchi dillad. Mae golchdy Prescoed wedi cael ei uwchraddio ac mae'n rhedeg yn dda.

5.1.11 Mae'r systemau larwm tân yn y ddau garchar wedi cael eu huwchraddio'n ddiweddar.

5.1.12 Ymddengys bod prif gegin Prescoed wedi'i threfnu'n dda, ond mae prinder staffio (staff a gweithwyr carchardai) yn peri anawsterau parhaus. Nid yw'r Bwrdd wedi derbyn unrhyw geisiadau am fwyd yn ystod y cyfnod adrodd. Ychydig iawn o sylwadau sydd yn y llyfr sylwadau arlwygo yn y ddau garchar. Roedd pecynnau bwyd atodol yn dal i gael eu cyflenwi drwy'r pandemig. Mae'n ymddangos bod darpariaeth foddhaol wedi bod ar gyfer deietau arbennig.

5.1.13 Yn CEM Prescoed, mae 80 o garcharorion wedi dewis cymryd rhan yn "dydd lau siopa bwyd" – mae hwn ar gael i weithwyr sy'n cael eu talu'n llawn ar ROTL. Fel cam tuag at normalrwydd, mae'n eu galluogi i storio detholiad o frechdanau a phrydau meicrodon ar gyfer y nos os byddant yn colli'r gwasanaeth pryd poeth gyda'r nos.

5.2 Gwahanu

Nid oes cyfleusterau gwahanu ym Mrynbuga na Phrescoed.

5.3 Perthynas rhwng staff/carcharorion/dibynyddion, gweithwyr allweddol

5.3.1 Ymddengys bod y berthynas rhwng staff a charcharorion yn gadarn.

5.3.2 Mae'r system gweithiwr allweddol yn parhau i weithredu ym Mrynbuga, er ei bod yn amlwg bod yr amgylchiadau arbennig ac absenoldebau staff wedi amharu rhywfaint ar y system, ond mae archwiliadau lles a chyswllt sylfaenol wedi parhau.

5.3.3 Ym Mhrescoed, mae OMIC yn yr ystâd agored yn cael ei dreialu ac mae pob carcharor yn cael cyfle i gael cyswllt rheolaidd â rheolwr troseddwyd y carchar.

5.3.4 Mae'n ymddangos bod ymdrechion effeithiol yn mynd rhagddynt i sicrhau cyfathrebu da gyda charcharorion ac mae sawl fforwm ymgynghori.

5.4 Cydraddoldeb ac amrywiaeth

Mae staff y carchar wedi parhau i gefnogi carcharorion sydd â nodweddion gwarchodedig fel y cânt eu diffinio gan y Ddeddf Cydraddoldeb yn ystod y flwyddyn ddiwethaf hon. Bydd y carchar yn cynnal arolwg cydraddoldeb i gymharu'r amodau yn ystod Covid-19 a'r amodau cyn Covid-19 er mwyn canfod a oes unrhyw grwpiau penodol yn teimlo eu bod wedi cael eu trin yn wahanol yn ystod y pandemig. Mae'r carcharorion yn dweud yn gyson eu bod yn teimlo'n ddiogel yn y ddau garchar. Roedd canlyniadau holiadur nodweddion gwarchodedig Carchar Brynbuga yn gadarnhaol yn gyffredinol ond ychydig yn llai cadarnhaol ym Mhrescoed. Gan fod trigolion Brynbuga wedi wynebu'r amodau mwyaf llym yn ystod y cyfyngiadau symud, mae hyn yn rhywbeth i'w ddathlu.

Cytunwyd ar strategaeth ragoriaeth ar gyfer Canolfan Hyfforddi Fferm Carchar Brynbuga, Prescoed a Chilwrgi ym mis Ionawr 2021. Mae hyn yn tynnu sylw at anghenion penodol pobl hŷn.

Mae Carchar EM Brynbuga wedi ennill y cymhwyster Amgylcheddau Galluogi. Mae hyn yn cynnwys cael cynrychiolwyr carcharorion ar wahanol fyrddau a'u hannog i chwarae rhan weithredol. Ar ben hynny, mae cynghorau cymuned carchardai wedi cael eu cyflwyno, lle mae cynrychiolwyr o grwpiau lleiafrifol. Bydd hyn yn cynnwys annog carcharorion i gefnogi a datblygu carcharorion, cymryd rhan mewn penderfyniadau am amgylchedd y carchar a chynyddu ymgysylltiad gweithwyr allweddol â charcharorion.

Mae amrywiaeth o ddigwyddiadau yn ystod y flwyddyn sy'n adlewyrchu amrywiaeth y carcharorion. Er bod y rhain wedi bod yn wahanol yn ystod y drefn gyfyngedig, mae'r carchardai wedi parhau i gydnabod a dathlu amrywiaeth o feysydd. Mae hyn yn cynnwys Black Lives Matter, ymwybyddiaeth LGBT, Wythnos Roma a Sipsiwn, Atal Hunanladdiad y Byd, iechyd meddwl ac ymwybyddiaeth o anabledd. Mae byrddau arddangos wedi cael eu defnyddio i hyrwyddo'r digwyddiadau hyn, mae ffilmiau ar gael ac mae carcharorion wedi cael dewis o brydau dathlu i adlewyrchu'r gwahanol ddiwylliannau.

Mae poblogaeth sy'n heneiddio yng Ngharchar EM Brynbuga, lle mae 46% o'r carcharorion dros 50 oed a 41% o garcharorion ag un neu fwy o anableddau. Yn CEM Prescoed, mae 20% o'r carcharorion dros 50 oed gyda 32% ag un neu fwy o anableddau.

Gall mynediad i garcharorion ag anableddau corfforol fod yn heriol yn y ddau safle. Er bod yr ystafelloedd cawod wedi cael eu haddasu, dim ond un lifft grisiau sydd ar gael ar gyfer y tair adain yng Ngharchar EM Brynbuga.

Mae Canolfan Cameo, a ddatblygwyd i ddarparu canolfan weithgareddau ar gyfer carcharorion hŷn yng Ngharchar Brynbuga, ar gau oherwydd y cyfyngiadau symud, gyda rhai eithriadau penodol fel gweithgareddau sy'n seiliedig ar ffydd. Mae'r carcharorion yn awyddus i hon ailagor gydag amrywiaeth o ddigwyddiadau, pan fydd trefn y carchar yn caniatáu hynny.

Mae'r fforwm LGBT wedi parhau yn ystod y flwyddyn.

Yn ystod y flwyddyn roedd dau garcharor trawsryweddol, ac mae un ohonynt wedi gadael erbyn hyn. Mae byrddau achosion trawsryweddol wedi cael eu cynnal, ond nid oedd y Bwrdd Monitro Annibynnol yn gallu bod yn bresennol yn y cyfarfodydd hyn.

Mae argymhellion Adroddiad Lammy yn dal i gael eu monitro gan y bwrdd cydraddoldeb ac amrywiaeth. Cynhaliwyd y rhain drwy delegynhadledd, gydag aelodau'r Bwrdd yn bresennol. Er nad yw hyn yn ddelfrydol, gan nad yw carcharorion yn cymryd rhan, maent wedi parhau i ddatblygu'r agenda hon.

5.5 Ffydd a chefnogaeth fugeiliol

Mae hyn wedi bod yn heriol i'w fonitro yn ystod y pandemig a'r cyfyngiadau symud. Mae'r rhan fwyaf o'r wybodaeth naill ai wedi cael ei hadrodd gan y gaplaniaeth neu drwy'r bwrdd cydraddoldebau.

Yn ystod ymweliadau, mae'r carcharorion yn dweud eu bod yn gallu parhau i gadw at eu ffydd. Mae'r gwyliau crefyddol wedi cael eu dathlu cymaint â phosibl, gan sicrhau diogelwch Covid-19.

Mae gan y carcharorion amrywiaeth o ffydd a chredoau. Mae'r rhain yn cynnwys Bwdhaeth, Paganiaeth, Iddewiaeth, Hindŵaeth, Moslemaidd, Sikhiaeth, Mormoniaeth, Tyst Jehovah, a gwahanol fathau o Gristnogaeth. Mae caplaniaid y carchar wedi parhau i ymweld yn ystod y pandemig. Er na allant gynnig addoliad i grwpiau mwyach, fel gweddïau dydd Gwener, oni bai fod carcharorion yn dod o'r un garfan, maent wedi parhau i gynnig gweddïo ac addoli unigol, lle gofynnir am hynny.

Tynnodd arolwg meddal yng Ngharchar Prescoed sylw at waith yr imam, a barhaodd i gynnig cefnogaeth ysbrydol ac emosiynol i bobl o bob ffydd, gan gynnwys y rhai heb unrhyw ffydd.

Mae cylchlythyr misol Prescoed bellach yn cynnwys adran o'r enw 'Faith in You', lle mae adnoddau, grwpiau cefnogi ffydd, clybiau llyfrau ffydd a llinellau gweddïo gyda'r Gymrodoriaeth Carchardai i gyd wedi'u rhestru. Mae carcharorion yn cael eu hannog i gyflwyno erthyglau, gan egluro pam mae eu ffydd yn bwysig iddyn nhw.

Yn anffodus, mae'r ystafell aml-ffydd yng Ngharchar Brynbuga wedi aros ar gau oherwydd difrod. O'r blaen roedd ar gael i bob carcharor. Mae gwasanaeth nad yw'n Gristnogol neu grwpiau ffydd y mae'n well ganddynt beidio â defnyddio'r capel yn gallu defnyddio Canolfan Cameo.

5.6 Cynlluniau cymhellion (IP)

5.6.1 Yng Ngharchar Prescoed, roedd ciplun dangosol ar gyfer y cyfnod yn dangos bod 190 o garcharorion ar lefel uwch, 12 ar lefel safonol a 0 ar y lefel sylfaenol.

5.6.2 Yng Ngharchar EM Brynbuga, roedd ciplun dangosol ar gyfer y cyfnod yn dangos bod 215 o garcharorion ar lefel uwch, 2 ar lefel safonol a 0 ar y lefel sylfaenol.

5.7 Cwynion

5.7.1 Carchar Prescoed: ychydig o gwynion a gafwyd yn ystod y cyfnod adrodd (89). Roedd y cyfnodau brig (y modd) yn canolbwyntio ar eiddo (16) a phreswyl (17). Mae'n werth nodi nad oedd unrhyw gwynion am drais na chyfyngiadau ar ymweliadau.

5.7.2 Carchar EM Brynbuga: cafwyd 300 o gwynion yn ystod y cyfnod adrodd ac mae'n werth nodi bod dros 30% wedi dod gan un unigolyn. Roedd y cyfnod brig (modd) yn ymwneud â materion preswyl. Unwaith eto, ni chafwyd unrhyw gwynion am drais a dim ond pedwar ynghylch ymweliadau.

5.8 Eiddo

Daeth llawer o gwynion, ym Brynbuga a Prescoed, o faterion yn ymwneud â throsglwyddo eiddo o garchardai eraill.

6. Iechyd a lles

6.1 Gofal iechyd cyffredinol

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan yn darparu'r holl wasanaethau iechyd ar gyfer Carchar Brynbuga a Charchar Prescoed. Mae gwasanaethau meddygon teulu, deintyddol ac optegol yn cael eu rhoi ar gontract allanol.

Drwy gydol y pandemig mae aelodau o'r Bwrdd Rheoli Annibynnol wedi bod mewn cysylltiad rheolaidd â gofal iechyd ac mae'r Bwrdd o'r farn bod cydweithio da rhwng swyddogion a staff gofal iechyd wedi arwain at reolaeth effeithiol yn y ddau safle. Wrth symud ymlaen, y prif amcan mewn gofal iechyd fydd adfer y gwasanaeth i lefelau cyn Covid-19.

Covid

Yn ystod y pandemig, mae gweithio mewn partneriaeth yn y sefydliad a gydag asiantaethau allanol wedi cael ei gryfhau, a dylid canmol staff am eu gwaith caled drwy gydol y pandemig.

Roedd nifer o heriau, yn wreiddiol oherwydd natur y feirws sy'n newid o hyd, y diffyg technoleg yn y carchar a'r angen parhaus i rannu gwybodaeth â llawer o sefydliadau. Roedd amser allan o'r gell wedi'i gyfyngu'n ddifrifol oherwydd gofynion trefn Covid-19.

Mae'r staff wedi addasu i ffyrdd newydd o weithio ac wedi datblygu uned gofal gwell yng nghanolfan ymweliadau'r carchar, er mwyn darparu ar gyfer mwy o ofal i gleifion mewnol pan nad oedd yn briodol iddynt gael eu derbyn i'r ysbyty.

Ar lefel uwch, roedd pawb yn gweithio gyda'i gilydd i sicrhau amgylchedd diogel i gleifion sâl iawn. Ymunodd uwch dîm y carchar yn rheolaidd ag Iechyd Cyhoeddus Cymru, gwasanaethau y tu allan i oriau, a thimau rheoli heintiau i ddatblygu llwybrau. Roedd modd uwchgyfeirio ymholiadau i dîm Efydd y Gwasanaeth Carchardai a Phrawf ac ymatebwyd yn gyflym.

Roedd cydweithio effeithiol gyda thîm lleol Iechyd Cyhoeddus Cymru, a gymerodd ran mewn cyfarfodydd wythnosol o'r tîm rheoli achosion. Roedd ymholiadau ynghylch carcharorion yn cael eu trafod bob amser cyn gweithredu arnynt, ac roedd adborth yn cael ei rannu'n rheolaidd.

Nid oedd tîm integredig Cyngor Sir Fynwy (sy'n cynnwys gweithwyr cymdeithasol a'r therapydd galwedigaethol) yn gallu ymweld, felly roeddent ar gael dros y ffôn. Gwnaethant lawer o'r cyswllt rhwng yr ysbyty a gofal iechyd.

Brynbuga a Phrescoed oedd y carchardai cyntaf yn y DU i weinyddu brechiadau Covid-19. Cawsant Wobr Uchel Siryf yn cydnabod y gwaith gwerthfawr a wnaethpwyd yn y gymuned carchardai yn ystod y pandemig.

Er bod gwasanaethau'n cael eu datblygu, roedd rhai cynlluniau a wnaethpwyd cyn hyn yn gwneud cynnydd drwy ddefnyddio arian gan Lywodraeth Cymru.

Recriwtio a hyfforddi

Mae nyrs band 6 arall wedi cael ei recriwtio, gan ddod â'r cyfanswm i bedwar.

Mae'r nyrs band 4 a oedd yn cael ei chyflogi wedi dechrau ar y dystysgrif lefel 4 mewn hyfforddiant cynorthwyydd gofal iechyd, ac roedd y gweithiwr cymdeithasol gofal iechyd a gafodd ei symud i'r tîm yn ystod y pandemig wedi llenwi'r swydd band 3 honno. Mae'n dymuno dilyn yr un hyfforddiant lefel 4, sy'n golygu y bydd hi'n cymhwyso fel nyrs mewn dwy flynedd.

Mae'r band 7 wedi cwblhau'r cwrs presgripsiynu anfeddygol yn llwyddiannus a bydd yn ymgymryd â'i thraethawd hir i gwblhau ei MSc. Bydd hyn yn gwella'r gwasanaeth dan arweiniad nyrsys ymhellach.

Oherwydd y pandemig, nid oedd yn bosibl dechrau'r hyfforddiant iechyd rhywiol arfaethedig a oedd i fod i ddarparu clinigau wythnosol ar draws y ddau safle. Fodd bynnag, mae trafodaeth bellach wedi'i ailsefydlu gyda'r gwasanaethau perthnasol.

Nid yw gofal iechyd wedi gallu darparu ar gyfer myfyrwyr nyrsio yn ystod y pandemig. Fodd bynnag, bydd hyn yn aildechrau cyn gynted ag y bo modd. Yn ddiweddar, mae mentoriaid staff wedi cynnal sesiynau wedi'u diweddarau ar ofynion newydd ar gyfer asesu myfyrwyr.

6.2 Gofal iechyd corfforol

Gwasanaethau meddygol cyffredinol

Mae gwasanaethau meddygol cyffredinol yn parhau i gael eu darparu gan Ganolfan Iechyd Malpas Brook. Mae tair meddygfa yr wythnos ym Mrynbuga a dwy ym Mhrescoed. Mae'r contract yn rhedeg tan fis Mawrth 2024.

Gofal lliniarol/diwedd oes

Mae'r Bwrdd Partneriaeth Carchardai ac uwch dîm arwain Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan wedi cytuno'n swyddogol ar y llwybr diwedd oes gyda chefnogaeth gan yr holl asiantaethau partner. Yn ystod y pandemig, bu'n rhaid i'r tîm nyrsio addasu eu patrwm shiftiau a gweithiodd y gwasanaeth hyd at 12 awr, 8am – 8pm i ddarparu anghenion nyrsio pan oedd angen ar gyfer gofal lliniarol. Y tu allan i'r oriau hyn, byddai asiantaethau partner yn cefnogi.

Offthalmoleg

Mae PenOptical yn parhau i ddarparu dwy sesiwn y mis ar bob safle. Ar ôl eu gweld, mae dynion fel arfer yn cael eu sbectol o fewn pum niwrnod.

Gwasanaethau deintyddol

Time for Teeth Ltd sy'n darparu'r gwasanaeth deintyddol ac mae ganddo contract cyfnod penodol tan 31 Mai 2023. Mae'n parhau i ddarparu dwy sesiwn deintydd yr wythnos ym Mrynbuga a Phrescoed. Ceir hefyd sesiwn hylenydd deintyddol un bore'r wythnos ym Mrynbuga. Caiff y dynion ym Mhrescoed eu hannog i fynd at eu deintydd eu hunain pan fyddant yn cael mynd adref (nad oedd yn digwydd ar gyfer y rhan fwyaf o'r RP) ond gall y ddau safle gael mynediad at y gwasanaethau brys yn ôl yr angen.

Fferylliaeth

Mae fferyllfa Raglan yn parhau i ddarparu gwasanaeth rhwng 9am a 5pm, ac eithrio prynhawniau Mercher. Cafodd y contract ei ymestyn oherwydd Covid-19 ond bydd yn barod i fynd i dendr ym mis Awst 2021.

6.3 Iechyd meddwl

Parhaodd gwasanaethau iechyd meddwl drwy gydol y pandemig, dros y ffôn i ddechrau, ac yn ddiweddarach wrth i'r cyfyngiadau gael eu llacio, mewn sesiynau wyneb yn wyneb gyda'r cyfarpar diogelu personol cywir a chadw pellter cymdeithasol.

Fel rhan o'r gwaith o ddatblygu gwasanaethau, cynhaliwyd cynllun peilot chwe mis i edrych ar iechyd meddwl ymysg oedolion hŷn. Mae deuddeg o gleifion wedi cael eu nodi ac roedd yr argymhellion a wnaethpwyd yn cynnwys llwybrau atgyfeirio, asesu a thriniaeth, a'r angen am therapi gwybyddol. Mae'r gwaith hwn wedi arwain at weithio mewn partneriaeth ag ymgynghorydd niwroseicoleg.

Ceir trafodaethau hefyd gyda'r gwasanaeth awtistiaeth integredig i ariannu'n rhannol swydd wag ar gyfer nyrs ac ymgynghorydd cofrestredig i asesu ac adolygu cleifion sydd â'r diagnosis hwn ac i ganfod y rhai sydd heb gael diagnosis.

6.4 Gofal cymdeithasol

Mae'r gwaith gyda thîm integredig Sir Fynwy yn parhau a chynhelir cyfarfodydd rheolaidd i drafod unrhyw faterion. Daeth ffisiotherapi In-reach i ben oherwydd newidiadau mewn rolau ffisio. Fodd bynnag, fel rhan o gyllid Llywodraeth Cymru, mae hysbyseb wedi'i gosod ar gyfer ffisiotherapydd mewnol a therapydd galwedigaethol rhan-amser. Bydd y ddwy rôl hyn yn helpu i sicrhau llesiant cleifion mwy cyflawn a rhoi argymhellion y gwasanaethau iechyd meddwl estynedig ar waith.

6.5 Ymarfer corff, trefn

Yn ystod rhan o'r cyfyngiadau symud oherwydd Covid-19, roedd hyn wedi'i gyfyngu i hanner awr y dydd gan fod dynion yn treulio hyd at 23 awr y dydd yn eu celloedd.

6.6 Adsefydlu oherwydd cyffuriau ac alcohol

Fel rhan o broses gynefino carcharorion, mae DYFODOL yn eu categoreiddio ar unwaith fel rhai uchel, canolig neu isel o ran yr angen am gefnogaeth barhaus. (Gweler yr eirfa yn adran 8.2.)

Drwy gydol y cyfnod, dim ond tri aelod o staff oedd yn darparu'r gwasanaeth hanfodol hwn i garcharorion Prescoed a Brynbuga. Roedd ganddynt lwyth achosion cyson o 40 o garcharorion yr un. Profodd hyn yn heriol iawn, ac mae'n glod mawr iddynt eu bod wedi gallu ymdopi â'r llwyth gwaith hwn. Y rhan fwyaf o'r amser roedd y staff yn gweithio gartref.

Cafodd y tîm eu gorfodi i addasu eu harferion gweithio oherwydd effaith Covid-19 ac yn ystod y rhan fwyaf o'r cyfnod adrodd, nid oeddent yn gallu darparu sesiynau grŵp

nac un-i-un i garcharorion. Cafodd y rhain eu hadfer ar 19 Ebrill 2021. Serch hynny, roedd y tîm yn gallu rhoi cymorth i'r carcharorion mwyaf agored i niwed dros y ffôn ac roeddent hefyd yn gallu cyhoeddi llyfrau gwaith i'w cwblhau yn y celloedd.

6.7 Sgiliau meddal

Unwaith eto, oherwydd cyfyngiadau Covid-19, doedd dim bron ar wahân i fynediad at becynnau tynnu sylw a mynediad at sesiynau dysgu'r Brifysgol Agored.

7. Cynnydd ac ailsefydlu

Dyma'r maes lle mae bywyd carchar wedi cael ei daro galetaf yn ystod y cyfyngiadau symud.

7.1 Addysg, llyfrgell

Yn amlwg, mae'r cyfyngiadau symud wedi cael effaith negyddol enfawr ar y ddarpariaeth addysg yn ystod y cyfnod adrodd – roedd hon yn flwyddyn fel dim un arall ac mae ein hadroddiadau newydd yn adlewyrchu hynny.

Dyma'r elfennau cadarnhaol nodedig:

- Cafodd nifer o gyrsiau dysgu o bell eu hariannu a'u sefydlu drwy Ymddiriedolaeth Addysg y Carcharorion.
- Roedd myfyrwyr y Brifysgol Agored yn gallu parhau i astudio drwy gydol y cyfnod gyda benthyciadau gliniaduron.
- Cafodd teledu addysgol yn y gell ei osod gyda llyfrau gwaith.
- Darparwyd amrywiaeth o becynnau lles a gweithgareddau – rhai wedi'u dyfeisio a'u llunio gan y dynion eu hunain. Mae'r adborth i'r Bwrdd yn cadarnhau bod y rhan fwyaf o'r dynion yn gwerthfawrogi'r rhain.
- Er gwaethaf cyfnodau hir pan nad oedd llyfrgellydd yn bresennol ar y safle, roedd gwasanaethau llyfrgell yn y ddau garchar yn cael eu cynnal gan garcharorion ac roedd y drefn a'r rhaglen gyflwyno roeddent yn ei rheoli yn llwyddiannus ac yn werthfawr.
- Cafodd llawer o swyddogion addysg eu hadleoli drwy gydol y cyfyngiadau symud gan ddarparu a hwyluso profion Covid-19 i staff a dynion.

7.2 Hyfforddiant galwedigaethol, gwaith

Er gwaethaf y cyfyngiadau symud, mae Carchar Prescoed wedi llwyddo i ddarparu lleoliadau gwaith i garcharorion. Tan dechrau cyfnod clo Covid-19, roedd gan Prescoed dros 100 o ddynion yn gweithio oddi ar y safle ar ROTL bob dydd. Mae'r rhan fwyaf o'r swyddi hyn (tua 70%) yn rhai â thâl ac maent yn cynnwys galwedigaethau adeiladu, cynnal a chadw rheilffyrdd, gweithgynhyrchu, warws, ac amaethyddiaeth. Mae hyn yn bwysig gan ei fod yn galluogi dynion i gael cyflogaeth hirdymor broffidiol pan gânt eu rhyddhau. Mae'r canlyniadau y mae'r tîm wedi'u gwneud o ran diogelu a datblygu'r swyddi hyn wedi creu argraff dda ar y Bwrdd. Yn ystod y pandemig, parhaodd llawer o weithwyr i fynd i'w lleoliadau – er enghraifft helpu i adeiladu Ysbyty newydd y Brifysgol yng Nghwmbrân – ac mae hyn wedi bod o fudd iddyn nhw a'r ardal leol.

Parhaodd arholiadau iechyd a diogelwch NEBOSH drwy gydol y cyfnod clo (arholiadau llyfr agored 24 awr gyda gliniaduron benthyg).

7.3 Rheoli troseddwy, cynnydd

7.3.1 Effeithiwyd yn ddifrifol ar y cyswllt rhwng carcharorion a rheolwyr swyddogion prawf gan gyfyngiadau Covid-19 a lefelau staffio isel.

7.3.2 Mae'r broses dderbyn gynhwysfawr a gynhelir yng Ngharchar Brynbuga, sy'n cynnwys asesiadau lles staff deuol ac asesiadau gofal iechyd i nodi'r gwendidau presennol, yn ogystal â'r dogfennau risg sydd wedi'u cofnodi, yn cyfrannu'n llwyddiannus at les a llesiant. Yn ystod y cyfnod adrodd hwn:

- Cynhaliwyd cyfarfodydd MAPPA Carchar Brynbuga yn bennaf drwy Microsoft Teams neu drwy delegynadledda.
- Cynhelir cyfarfodydd MAPPA yng Ngharchar Prescoed drwy Microsoft Teams gydag ambell gyfarfod wyneb yn wyneb ar gyfer lefel 3.
- Sefydlwyd is-grŵp gweithredu yng Ngwent i archwilio presenoldeb TACAA a sicrhau ansawdd.

7.3.3 Mae hyd at hanner cant y cant o ddogfennau OASys a dderbynnir yng Ngharchar EM Brynbuga yn amrywio o ran eu hansawdd gyda'r adran "Gadael Gofal" naill ai'n aros yn wag neu ansawdd y cofnodi yn is na'r disgwyl. Derbynnir bod diffyg adnoddau yn cyfrannu at hyn. Mae amseroldeb adolygiadau OASys yn gwella yng Ngharchar Prescoed wedi'i yrru gan y model OMIC.

Ailddechreuodd ymyriadau achrededig yn ystod y cyfnod adrodd ar ôl diwedd cyfnod clo cam 4. Brynbuga oedd un o'r cyntaf i wneud hynny ac roedd gwasanaethau seicolegol fforensig (FPS) yn parhau i ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf am raglenni.

7.4 Cyswllt teulu

Yn ystod y pandemig, mae'r carchar wedi parhau i weithio gyda'r Ymddiriedolaeth Cyngor a Gofal Carchardai (PACT gweler adran 8.2) i sicrhau bod cymorth ar gael i deuluoedd a dynion yn ystod cyfyngiadau Covid-19.

Ym Mhrescoed yn ystod y cyfnod adrodd, mae bron i 1400 o sesiynau Ymweliad Porffor (ymweliad fideo) wedi cael eu cynnal gyda chyfartaledd o dros 150 y mis.

7.5 Cynllunio ailsefydlu

Yn ystod cyfnod clo Covid-19, mae partneriaid wedi parhau i helpu gyda chynlluniau rhyddhau.

- Roedd carcharorion yn dal i gael cymorth i agor cyfrifon banc a chyfrifon cynilo undebau credyd.
- Cafodd cardiau dinasyddion a cheisiadau am drwyddedau DVLA eu prosesu i helpu gyda'r broses o'u hadnabod ar ôl eu rhyddhau.

- Parhaodd y gwaith rhyngadrannol gyda'r uned rheoli troseddwyd, gwasanaethau cymdeithasol ac ailsefydlu i gynnal llety dan y Ddeddf Lleihau Digartrefedd.
- Roedd cyfarfodydd cyn rhyddhau carcharorion yn ystod y cyfnod rhyddhau o ddeuddeg wythnos yn parhau drwy e-bost drwy gydol y pandemig.
- Mae'r gwasanaethau i gyn-filwyr yn parhau i gynnig gwasanaethau i gyn garcharorion arfog ar ôl cael eu rhyddhau.
- Cafodd boreau coffi a chlinigau galw heibio eu hatal oherwydd Covid-19.
- Parhaodd y cyswllt rhwng carcharorion a'r asiantaethau canlynol yn ystod y cyfnod hwn: St Giles, PACT, Dyfodol, Gyrfa Cymru, Yr Adran Gwaith a Phensiynau, Christians Against Poverty.
- Pan oedd y carchar ar lefel pedwar, roedd y cyswllt hwn yn cael ei gynnal gan ddefnyddio llinell ffôn drwy uned hunangymorth carcharorion a oedd yn cael ei noddi gan y carchar.
- Yn ystod cyfyngiadau lefel tri, roedd St Giles, PACT a Dyfodol yn darparu cyswllt wyneb yn wyneb â charcharorion

8. Gwaith y Bwrdd Monitro Annibynnol

8.1 Yn ystod cyfnod clo Covid-19, mae tystiolaeth y Bwrdd wedi deillio o'r canlynol:

- cyswllt â charcharorion a staff a wneir yn ystod gwaith monitro wyneb yn wyneb
- monitro unedau ac adrannau o bell bob wythnos yn rheolaidd
- nifer cyfyngedig o alwadau cynadledda gyda'r Gwrandawyr a grwpiau eraill sy'n cynrychioli carcharorion gan fod y cyfyngiadau symud wedi atal llawer o'r rhain
- cyfarfodydd a diweddariadau parhaus o bell gan y Llywodraethwr a'r Uwch Dîm Rheoli
- dadansoddi gwybodaeth reoli'r carchar yn erbyn cofnodion y Bwrdd ac adroddiadau rota
- adolygu ceisiadau carcharorion i'r Bwrdd (gweler adran D a'n sylw atodol)
- adolygu system gwyno'r carchar, ynghyd â'r adolygiadau chwarterol o'r ffurflen cofnodi digwyddiadau gwahaniaethu (DIRF)
- mynd i gyfarfodydd allweddol o bell – er enghraifft:
 - cyfarfodydd cydraddoldeb (sy'n cynnwys staff a charcharorion)
 - defnydd chwarterol o gyfarfodydd yr heddlu

Ystadegau'r Bwrdd

Nifer yr aelodau Bwrdd sy'n cael ei argymhell	15
Nifer yr aelodau Bwrdd ar ddechrau'r cyfnod adrodd	10
Nifer yr aelodau Bwrdd ar ddiwedd y cyfnod adrodd	10
Cyfanswm yr ymweliadau â'r sefydliad	35
Cyfanswm yr adolygiadau cadw ar wahân a fynychwyd	Ddim yn berthnasol

Ceisiadau i'r Bwrdd Monitro Annibynnol

Cod	Pwnc	Blwyddyn adrodd flaenorol	Blwyddyn adrodd bresennol
A	Llety, gan gynnwys golchi dillad, dillad, ymolchi	0	0
B	Disgyblaeth, gan gynnwys dyfarniadau, IEP, sancsiynau	4	0
C	Cydraddoldeb	0	0
D	Gweithgareddau pwrpasol, gan gynnwys addysg, gwaith, hyfforddiant, y llyfrgell, trefn, amser y tu allan i'r gell	1	0
E1	Llythyrau, ymweliadau, ffonau, cyfyngiadau diogelu'r cyhoedd	0	1
E2	Cyllid, gan gynnwys tâl, arian preifat, gwariant	0	0
F	Bwyd a cheginau	5	3
G	Iechyd, gan gynnwys iechyd corfforol, iechyd meddwl, gofal cymdeithasol	0	0
H1	Eiddo yn y sefydliad hwn	0	0
H2	Eiddo yn ystod trosglwyddo, neu mewn sefydliad neu leoliad arall	4	4
H3	Ffreutur, rhestr cyfleusterau, catalog(au)	0	2
I	Rheoli dedfrydau, gan gynnwys HDC, rhyddhau ar drwydded dros dro, parôl, dyddiadau rhyddhau, ail-gategoreiddio	1	2
J	Pryderon staff/carcharorion, gan gynnwys bwlio	0	0
K	Trosglwyddiadau	1	0
L	Amrywiol, gan gynnwys y system gwyno	2	0
	Cyfanswm y ceisiadau	18	12

8.1 Sylwadau atodol am geisiadau:

Yn 2019 a 2020, soniodd y Bwrdd am y nifer fach o geisiadau a gyflwynwyd gan garcharorion. Yn 2021, fe wnaeth ail-ymchwilio i weld a ddylai hyn fod yn achos pryder. Mae'r Bwrdd yn ymwybodol y gallai sbectwm y rhesymau posibl gynnwys un o'r casgliadau canlynol:

- Bod y niferoedd yn ddangosydd sy'n awgrymu bod carcharorion yn cael eu rheoli'n dda a bod y berthynas rhwng carcharorion a staff yn dda. Y casgliad a awgrymir yn yr achos hwnnw yw nad yw carcharorion yn teimlo bod angen cyflwyno ceisiadau.
- Bod y niferoedd yn ddangosydd negyddol sy'n awgrymu bod carcharorion wedi ymddieithrio gymaint o drefn y carchar, fel eu bod yn ofni canlyniadau posibl (er enghraifft, cael eu symud i garchar arall) neu eu bod wedi'u

dadrithio gymaint ag effeithiolrwydd y Bwrdd fel nad ydynt yn trafferthu cyflwyno ceisiadau.

Mae'r Bwrdd wedi ymchwilio i'r hyn y mae'n ei ystyried yn elfennau perthnasol, sy'n cynnwys y canlynol, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt:

- categori'r carchardai – mewn carchardai agored a'r rhai sy'n dal MCOSO, nid yw nifer isel o geisiadau'n anghyffredin
- natur y berthynas y mae aelodau'r Bwrdd wedi'i harsylwi rhwng carcharorion a staff
- sgysiau manwl gyda carcharorion
- ymgynghoriadau gyda chynrychiolwyr carcharorion gan gynnwys Gwrandawyr a Chyfeillion
- adolygiad systematig o wybodaeth reoli ar y rheini sy'n dychwelyd i amodau caeedig, yn gysylltiedig ag arsylwadau penodol ar y safle
- adolygiad rheolaidd o adroddiadau a chanlyniadau DIRF
- presenoldeb rheolaidd mewn cyfarfodydd cydraddoldeb a defnyddio grym

Yn ogystal â'r uchod, awgrymodd lleiafrif o garcharorion ym Mrynbuga a Prescoed y gallai'r rheini sy'n cyflwyno ceisiadau gael eu 'hanfon i ffwrdd' fel cosb am gwyno i'r Bwrdd. Yn y cyfnod adrodd 2017/18, 2019/20 ac eto yn 2020/21 cynhaliodd y Bwrdd adolygiad 12 mis ac ni chanfu unrhyw gydberthynas yn y naill sefydliad na'r llall rhwng y rheini a oedd yn cyflwyno ceisiadau ac yn cael eu symud i garchardai eraill neu (yn achos Prescoed) yn dychwelyd i amodau caeedig. Mae'r canfyddiadau hyn wedi cael eu cyfleu yn y carchar.

Yn dilyn yr ymchwiliad hwn, nid yw'r Bwrdd yn canfod unrhyw dystiolaeth sy'n cefnogi'r farn bod y nifer fach o geisiadau a gawn yn arwydd negyddol. Barn y Bwrdd yw bod carcharorion yn gyfforddus yn cyflwyno ceisiadau ac y byddent yn gwneud hynny pe baent yn teimlo'r angen. Mae carcharorion yn defnyddio system Comp 1 y carchar ac yn trafod materion sy'n peri pryder gyda'r Bwrdd ar lafar. Fel arfer, caiff cwynion eu datrys cyn y bydd angen gwneud cais. Bydd y Bwrdd yn adolygu'r sefyllfa hon yn feirniadol.

8.2 Geirfa

ACCT	Asesu gofal yn y ddalfa a gwaith tîm
CCQI	Canolfan y Coleg ar gyfer Gwella Ansawdd. Mae Coleg Brenhinol y Seiciatryddion yn gweithio gyda gwasanaethau iechyd meddwl i asesu a gwella ansawdd y gofal a ddarperir. Er mwyn ennill a chynnal achrediad, mae angen i wasanaeth ddangos safonau uchel cyson dros amser. Adolygir y rhain yn rheolaidd. <i>Ewch i rcpsych.ac.uk/improving-care</i>
AGC	Arolygiaeth Gofal Cymru
CRC	Cwmni Ailsefydlu Cymunedol
CSIP	Herio, cefnogi a chynllun ymyrryd
DYFODOL	Mae DYFODOL yn rhan o'r ddarpariaeth atal niwed ym maes cyfiawnder troseddol yng Nghymru ac mae'n cynnig asesiad, triniaeth a chefnogaeth i'r rheini sy'n ymwneud â'r system cyfiawnder troseddol
Arolygiaeth Carchardai EM	Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi
CEM	Carchar Ei Mawrhydi
Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi	Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi
IEP	Cymhellion a breintiau haeddiannol
IMB	Bwrdd Monitro Annibynnol
JCVI	Cyd-bwyllgor ar Imiwneiddio a Brechu.
MAPPA	Trefniadau amddiffyn y cyhoedd aml-asiantaeth
MCOSO	Dynion a gafwyd yn euog o droseddau rhywiol
Y Weinyddiaeth Gyfiawnder	Y Weinyddiaeth Gyfiawnder

Corff Anllywodraethol	Corff anllywodraethol
NPM	Mecanwaith Atal Cenedlaethol
OASys	System Asesu Troseddwyd
OMU	Uned Rheoli Troseddwyd
Op Cap	Capasiti Gweithredol. Mae hyn yn ymwneud â chyfanswm nifer y carcharorion y gall sefydliad eu dal heb risg ddifrifol i drefn, diogelwch a rhediad priodol y carchar.
OPCAT	Protocol Dewisol i'r Confensiwn yn erbyn Artaith a Thriniaethau neu Gosb Greulon, Annynol neu Israddiol eraill
PACT	Mae Ymddiriedolaeth Cyngor a Gofal y Carchar (PACT) yn elusen genedlaethol annibynnol sy'n gweithio gyda charcharorion a theuluoedd carcharorion. Ei genhadaeth yw: cefnogi carcharorion a'u teuluoedd i ddechrau o'r newydd a lleihau'r niwed y gall carcharu ei achosi i droseddwyd, teuluoedd a chymunedau.
SARS-CoV-2	Coronafeirws syndrom anadlu aciwt difrifol 2 – y feirws sy'n achosi Covid-19



Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu o dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored v3.0 ac eithrio lle nodir fel arall. I weld y drwydded hon ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3

Pan fyddwn wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn <https://www.gov.uk/government/publications>

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn atom ni yn imb@justice.gov.uk.